# E. WYN JAMES a meysydd pori ANN GRIFFITHS

# Y LLYFRAU YN NOLWAR FACH

MAE'R Golygydd wedi apelio fwy nag unwaith ar i ni'r darllenwyr ysgrifennu i'r Casglwr am lyfrau sydd yn ein meddiant a chanddynt gysylltiadau neu gyn-berchenogion diddorol.

Ond yr hyn yr hoffwn ei wneud yma yw sôn am rai llyfrau y byddwn yn awchu am gael golwg arnynt yn unig, heb sôn am eu perchnogi, sef y rheini a fu ym meddiant teulu 'emynyddes orau'r byd', Ann Griffiths.

Roedd y Beibl, y Llyfr Gweddi Gyffredin a Taith y Pererin yn hen gyfeillion ar aelwyd Dolwar, wrth gwrs. Ond ceir cyfeiriadau at sawl llyfr arall a fu'n eiddo i aelodau teulu Dolwar-fach, neu ar fenthyg iddynt.

Dyna, er enghraifft, gyfieithiad Thomas Jones (1752-1845), curad efengylaidd Creaton, o gyfrol y Piwritan, Richard Baxter (1615-91), Tragwyddol Orphwysfa'r Saint (1790).

Yn ôl yr hanes, cafodd brawd hynaf Ann Griffiths, John Thomas, fenthyg copi o'r llyfr hwn gan gyfaill o Fethodist o'r enw Samuel Owen, o'r Wig, Llangynyw, ac wrth ei ddarllen cafodd ei ddeffro'n ysbrydol.

Bu gan D. Ward Williams gopi o Tragwyddol Orphwysfa'r Saint ag 'Ann Griffith her book' wedi'i ysgrifennu arno (Y Goleuad 7.3.1928, t.6); ond pwy bynnag yn union oedd yr Ann Griffith honno, mae'r Athro Bobi Jones yn ei gyfrol Ann Griffiths: Y Cyfrinydd Sylweddol (1977) wedi dangos yn glir ddylanwad llyfr Baxter ar dyfiant ysbrydol ac ar waith Ann yr emynydd.

* * * * *

YN ÔL traddodiad arall, nid cyfrol Baxter a fu'n gyfrwng deffro brawd Ann Griffiths yn ysbrydol, ond un y gweinidog Bedyddiedig o sir Gaerfyrddin, Timothy Thomas (1720-68), Aberdyar, Traethiad ar y Wisg-Wen Ddisglair (1759); a gwyddys fod y llyfr hwn hefyd 'yn adnabyddus yn y teulu', chwedl cofiannydd Ann, Morris Davies, Bangor.

Roedd y copi o'r Wisg-Wen Ddisglair a fu yn nheulu Ann Griffiths (a hwnnw hefyd wedi'i fenthyca iddynt gan Samuel Owen y Wig) ym meddiant Robert Gittins, Dolanog, erbyn 1905 (gw. Cymru, 30, t.91). Tybed a yw'n llechu yn rhywle o hyd?

Gan ferch Samuel Owen y cafodd Robert Gittins y copi hwnnw o'r Wisg-Wen Ddisglair. Ond dywedodd honno wrth Robert Gittins mai 'hen lyfr â chas bwff' o waith Gouge a fu'n foddion tröedigaeth John Thomas, ac y byddai ei thad, 'pan yn tynneu ei ellyn trosto cyn eillio, yn arfer dweyd mai dyna y llyfr ddylanwadodd fwyaf ar deulu Dolwar Fechan'.

Un o weithiau y gweinidog Anghydffurfiol a'r addysgwr, Thomas Gouge (1605?-81), oedd hwnnw. Amhosibl, ysywaeth, yw gwybod i sicrwydd erbyn hyn at ba un o lyfrau Gouge y cyfeirir, ond awgryma'r Athro R. Geraint Gruffydd yn y gyfrol Y Ferch o Ddolwar Fach, gol. Dyfnallt Morgan (1977), y gall mai Gair i Bechaduriaid, a Gair ir Sainct (1676) ydoedd.

'Yr hen lyfr a'r câs llwyd' yw disgrifiad John Jones, ieu., Llanfyllin (gor-nai Ann Griffiths), yn Cymru, 30 (1906), t.16, o'r llyfr a fu'n foddion deffro John Thomas – sy'n tueddu i fwrw amheuaeth ar le llyfr 'cas bwff' Gouge yn yr hanes.

Ond wrth gwrs, gan fod Samuel Owen y Wig 'o duedd ddarllengar' ac 'yn meddu amryw lyfrau' (chwedl Morris Davies), digon tebyg iddo fenthyca nifer o lyfrau i John Thomas (a'u cael yn ôl ganddo, mae'n amlwg!). Mae'n bosibl iawn, felly, fod gan lyfrau Baxter, Timothy Thomas a Gouge, ill tri, ran yn nhröedigaeth John, brawd Ann–y cyntaf o deulu Dolwar i droi at y Methodistiaid.

* * * * *

BU CYFIEITHIAD arall gan Thomas Jones, Creaton, yn eiddo i ŵr Ann, Thomas Griffiths, a ddaeth i fyw i Ddolwar adeg eu priodas yn Hydref 1804, sef ei gyfieithiad o waith yr Anglican efengylaidd, William Romaine (1714-95), ar Ganiad Solomon, Gwledd i'r Eglwys (1792). Ac mae hynny'n awgrymog iawn o gofio lle Caniad Solomon yng ngwaith Ann.

Efallai mai dyma'r lle priodol hefyd i nodi fod dau lyfr llawysgrif a fu ar aelwyd Dolwar yng nghyfnod Ann wedi'u diogelu yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Llyfr o feddyginiaethau yw'r naill. Roedd enw Ann ei hun wedi'i dorri ar ddalen ohono, ond rhoddwyd y ddalen honno yn anrheg i ryw weinidog ac fe'i collwyd ganddo.

Mae enw Ann ac enwau eraill o'i theulu i'w gweld o hyd ar y llawysgrif arall, sef casgliad o amrywiol ddarnau o farddoniaeth a fu mewn bri yn yr ardal yn ystod ei hieuenctid a chynt, rhai gan feirdd lleol ac eraill gan feirdd mwy adnabyddus megis Huw Morys, Edward Morris o'r Perthillwydion ac Ieuan Fardd.

Cyn cyrraedd Dolwar, bu'r llawysgrif hon yn eiddo i athro barddol teulu Ann, Harri Parri o Graig-y-gath. Mae Mrs Helen Ramage yn sôn am y ddwy lawysgrif yn ei chyfraniadau ar Ann a'i chefndir i'r cyfrolau Y Ferch o Ddolwar Fach, gol. Dyfnallt Morgan, a Maldwyn a'i Chyffiniau, goln. Gwynn ap Gwilym & Richard H. Lewis; a chyfeirir at y llawysgrif o farddoniaeth gan yr Athro Bobi Jones yn ei gyfrol Ann Griffiths: Y Cyfrinydd Sylweddol, tt.6-7, a chennyf innau mewn erthygl ar 'Rai Methodistiaid a'r Anterliwt' yn Taliesin, Hydref 1986, tt.16-17).

* * * * *

BYDDAI disgwyl awchus ar aelwyd Dolwar, yn ddiau, am bob rhifyn o gylchgrawn Thomas Charles a Thomas Jones, Dinbych, Trysorfa Ysprydol, a ymddangosodd yn chwe rhifyn rhwng Ebrill 1799 a Rhagfyr 1801.

Gallwn fod yn bur sicr, hefyd, fod llyfrau arwr mawr Ann, Thomas Charles o'r Bala, wedi cyrraedd Dolwar, gan gynnwys y pum rhan o gyfrol gyntaf ei Eiriadur Ysgrythyrol dylanwadol a ymddangosodd rhwng Hydref 1801 a marw Ann ym mis Awst 1805.

Mae gennym brawf go sicr o ddylanwad un o gyhoeddiadau Thomas Charles ar Ann, beth bynnag. Yn haf 1804, cyhoeddodd Charles lyfryn yn rhoi peth o hanes cenhadaeth Cymdeithas Genhadol Llundain yn neheudir Affrica, (ac ynddo hefyd atodiad yn rhoi ychydig o hanes sefydlu Cymdeithas y Beibl y flwyddyn honno).

Dan nawdd Cymdeithas Genhadol Llundain yr hwyliodd cyfaill Ann Griffiths, John Davies, yn 1800 i weithio fel cenhadwr yn Tahiti, a diddorol ei weld yn cael ei grybwyll ar ddiwedd y llyfryn hwn fel un 'yn llenwi ei le yn hardd ac yn ddefnyddiol, fel Cenhadwr yn Otaheite'.

Teitl y llyfryn yw, Talfyriad o hanes Mr. Kicherer, gweinidog yr efengyl, am ei lafur, ei beryglon, a'i lwyddiant ym mysg y Boschemen, un o'r llwythau tywyllaf a mwyaf anifeilaidd o'r Hottentots, yn neheudir Affrica, a bu digon o gip arno i warantu ei ailargraffu, wedi'i helaethu ychydig, yn nes ymlaen yr un flwyddyn.

Ceir sôn yn y llyfryn hwn hefyd am waith cenhadol Kicherer a'i gyd-weithwyr ymhlith aelodau llwyth arall yn yr ardal, sef y Coraniaid. Dyma Kicherer yn adrodd hanes un o'r tröedigaeth mwyaf trawiadol y bu'n dyst iddi, sef tröedigaeth un o'r Coraniaid, merch o'r enw Ester (t.17):

Pan ymddangosodd hi gyntaf yn ein mysg, prin y medrwn gredu ei bod yn un o ddynolryw. Yr oedd ei holl ymddygiad yn dangos gradd mawr iawn o anifeileiddrwydd. Ei gwisg o groen dafad oedd y futraf o'r cwbl a welais, neu a aroglais. Aml waith y meddyliais, Yn sicr y mae'n anmhosibl i'r fath yma gael byth ei dychwelyd! Ond, lle'r amlhaodd pechod a thrueni, rhagor amlhaodd gras. Yn fuan, dan sain efengyl tangnefedd, dechreuodd ei dagrau lifo: a phan ofynwyd iddi, Pa'm yr oedd hi yn wylo? yr oedd ei hatebion bob amser mor addas a pherthynol, fel y gwelais fod ei dealltwriaeth yn llawer cryfach nag y tybiaswn i. Ar ol tro o amser, gorfu iddi ymadael â'i gwr, yr hwn oedd ganddo dair ereill o wragedd; a hi a lynodd gyd â ni yn ein teithiau rhagllaw. Hi a fu dros fwy nâ blwyddyn yn ofidus dan deimlad o'i phechodau; ond o'r diwedd yr Arglwydd a ddyddanodd ei hyspryd. Hi a fedyddiwyd; ac a ddaeth i fod yn un o'r aelodau mwyaf bywiog, diwyd a defnyddiol yn fy nghynnulleidfa; a'i hymarweddiad sy ddiargyhoedd.

Cofiwch i Ann ei hun fod dan argyhoeddiad dwys o bechod am tua blwyddyn cyn dod i sicrwydd maddeuant. A hawdd gweld dylanwad llyfr Kicherer, a'r hanes penodol hwn am y ferch Ester efallai, ar y pennill hwn o'i gwaith:

> Cenhadon hedd, mewn efengylaidd iaith,
> Sy'n galw i'r wledd dros fôr yr India faith;
> Caiff Hottentots, Goraniaid dua' eu lliw,
> Farbaraidd lu, eu dwyn i deulu Duw.

* * * * *

CLYWED Benjamin Jones (1756-1823), gweinidog yr Annibynwyr ym Mhwllheli, yn pregethu yn Llanfyllin adeg y Pasg, 1796, a fu'n gyfrwng difrifoli Ann ynghylch ei chyflwr ysbrydol.

Dyna gychwyn cyfnod stormus iawn yn ei hanes a arweiniodd yn y diwedd at ffydd bersonol yn Iesu Grist fel ei Gwaredwr a'i Harglwydd, ac at aelodaeth o seiat y Methodistiaid ym Mhontrobert. Mae gennym brawf pendant fod llyfr o waith Benjamin Jones, Athrawiaeth y Drindod (1793) ym meddiant Ann. Yn Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd ym Mawrth 1956, mae gan G.T. Roberts, Llanrug, nodyn yn sôn am gopi o Athrawiaeth y Drindod a welodd ef gyda'r canlynol wedi'i ysgrifennu gan Ann Griffiths o dan enw Benjamin Jones ar ddiwedd y rhagymadrodd 'At y Darllenydd':

> O fendigedig was ei Dduw dangosodd imi lwubr bywud.
> Arweuniodd fi at fy Ngwaredwr anwul.
> Ann Thomas.
> Diolch buth. Mai 3 1798.

Ymddengys i'r gyfrol hon fod ym meddiant R.L. Edwards, Y.H. Bodafon, Dulas, Ynys Môn, ar un adeg (Y Goleuad, 29/2/1928, t.11). Roedd G.T.